YSGOL BRO IDRIS

Plant yn Baeddu – Canllawiau Ar Gyfer Ysgolion

Cefndir

Mae baeddu yn broblem eithaf cyffredin – gall effeithio cymaint ag 1 mewn 30 o blant rhwng 4-5 oed, a gall osod llawer o straen ar bawb y mae hyn yn effeithio arnynt, sy'n cynnwys y plentyn, y rhieni a'r ysgol.
Mae plant yn baeddu eu dillad isaf, yn baeddu lloriau, neu'n baeddu mewn mannau anaddas eraill. Fodd bynnag, gall y rhan fwyaf o blant reoli eu perfeddion yn well nac y gallant reoli eu pledrennau, a gallant reoli eu perfeddion ddydd a nos erbyn maent yn 3 oed.
Gan fod plant yn treulio'r rhan fwyaf o'r diwrnod mewn ysgol neu leoliad blynyddoedd cynnar, mae'n bwysig bod sefydliadau addysgol yn deall pam bod plant yn baeddu a sut gall ysgolion gynorthwyo i ddelio â hynny.

Rhesymau pam bod plant yn baeddu

- Diffyg hyfforddiant o ran defnyddio'r toiled
- Diet gwael/diffyg dŵr, yn arwain at rwymedd (yn arbennig gyda phlant hŷn)
- Anhawster dysgu neu anhawster corfforol
- Salwch llwybr traul e.e. dolur rhydd
- Anwybyddu arwyddion y dylent 'ddefnyddio'r toiled'
- Digwyddiadau neu brofiadau dirdynnol
- Rhy swil i ofyn am ddefnyddio'r toiledau
- Seicolegol – profiad annymunol yn y gorffennol, ofn defnyddio'r toiled

Effeithiau y gall baeddu gael ar blant

- Ynysigedd cymdeithasol;
- Bwlio;
- Embaras;
- Diffyg hunan-barch;
- Anianawd;
- Ymddygiad;
- Osgoi gweithgareddau;
- Straen;

Sut y gall *rhieni* helpu mewn sefyllfa a all godi yn yr ysgol

- Trafod unrhyw broblemau a all fod gan y plentyn, yn gyfrinachol, gyda'r athro/athrawes dosbarth.
- Hyrwyddo arferion hylendid cyffredinol gartref, sy'n cynnwys golchi'r dwylo.
- Darparu 'bag newid' fel y gall y plentyn newid ei ddillad yn ddiffwdan yn yr ysgol.

- Trafod gyda'r athro/athrawes dosbarth er mwyn canfod a oes gan y plentyn broblemau o ran defnyddio toiled yr ysgol.
- Annog eich plentyn yn raddol i ddefnyddio'r toiled gyda llai o oruchwyliaeth.
- Helpu eich plentyn i feddwl yn bositif y bydd ef/hi yn gallu rheoli'r perfeddion.
- Trefnu asesiad gan swyddog iechyd sydd wedi derbyn hyfforddiant (nyrs ysgol) mewn ymgynghoriad â staff yr ysgol, neu'r meddyg teulu.
  (Gyda phlant hŷn, dylai hyn fod yn un o'r ystyriaethau cyntaf).

Sut y gall *staff* gynorthwyo mewn sefyllfa a all godi yn yr ysgol

- Annog rhieni i ddefnyddio'r gwasanaeth nyrs ysgol, sydd yn asesu ac yn hyrwyddo lles, ac yn cynnig cyngor a thriniaeth pan fo angen.
- Sicrhau bod dŵr yfed ar gael i'r plant trwy'r dydd, a chyfleusterau toiled o ansawdd da, ac a gynhelir yn dda, nad ydynt yn codi ofn, nac yn oer, nac yn anhygyrch.
- Hyrwyddo arferion hylendid yn yr ysgol sy'n cynnwys golchi'r dwylo.
- Cadw 'bag newid' a ddarperir gan riant fel gall y plentyn newid ei ddillad yn ddiffwdan yn yr ysgol.
- Parchu cyfrinachedd, a hyrwyddo diwylliant 'dim bai' cyn belled ag y mae baeddu yn y cwestiwn.
- Egluro wrth rieni bod 'cyfnodau gwahardd' yn cael eu gweithredu yn sgil sawl salwch sy'n gyffredin mewn plentyndod, gan gynnwys dolur rhydd a chwydu.
- Fodd bynnag, ni ddylid gwahardd unrhyw blentyn (heblaw gyda'r uchod) rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol arferol yn unig oherwydd anallu i ymatal rhag baeddu a gwlychu.
- Bod yn rhan o'r Fenter Ysgolion Iach.
- Ni ddylid ceryddu na disgyblu plentyn am faeddu.

Ffactorau 'staffio' pwysig eraill i'w hystyried wrth lunio polisi

- Nid yw glanhau plant yn rhan o ddyletswyddau proffesiynol athro/athrawes. Felly, ni ellir ychwanegu cyfrifoldeb o'r fath at swydd ddisgrifiad athro/athrawes.
- Er na ddisgwylir i athrawon ddelio â digwyddiadau arferol, na'r rhai y gellir eu darogan, byddai'r rhan fwyaf o athrawon yn cynorthwyo mewn argyfwng.
- Pwysigrwydd creu perthynas gefnogol a sensitif gyda'r rhiant/gofalwr, yr athro/athrawes dosbarth, CGAAA a'r nyrs ysgol/sawl sy'n rhoi cymorth cyntaf.
- Y weithdrefn i'w dilyn pan geir digwyddiadau – dylid hysbysu'r rhieni sut y delir â'u plentyn yn yr ysgol.
- Nodi man dirgel a ble mae'n hawdd glanhau ble'r eir â phlant i'w glanhau/newid eu dillad. Rhaid sicrhau fod hyn mewn lle preifat a bod yr ystafell wedi ei awyru'n ddigonol.

- Er nad oes gofyn cyfreithiol i 2 oedolyn fod yn bresennol o dan amgylchiadau o'r fath, byddai'n arfer da cael 2 berson yn bresennol os yn bosib - dylid wrth gwrs hysbysu rhieni o'r gweithdrefnau hyn a gofyn am eu caniatâd ysgrifenedig.
- Mae rhesymau da dros annog pob plentyn i fynd i'r toiled cyn cychwyn ymweliad ysgol.
- Dylai ysgolion ystyried sut i gynnal trefn a disgyblaeth yn hyn o beth fel nad yw'r polisi ar 'fynd i'r toiled' yn cael ei dorri.
- Dylid annog disgyblion, trwy'r cyngor ysgol, i gymryd cyfrifoldeb dros, a pherchnogaeth o, doiledau er mwyn eu cadw mewn cyflwr rhesymol.
- Dylid gwisgo menig latecs (dim powdwr) & ffedog blastig i newid plentyn pan fo'n bosib, gan gofio gorchuddio unrhyw doriad neu grafiad ar y croen.
- Rhaid cadw safonau hylendid uchel gan olchi dwylo gyda dŵr a sebon cyn ac ar ôl newid plentyn.
- Os yw damweiniau yn digwydd yn aml, neu os byddai'r plentyn dal mewn clytiau am resymau meddygol, byddai rhaid sicrhau gosod trefniadau mewn lle i waredu'r defnydd yn briodol gan gydymffurfio gyda rheolau amgylcheddol, h.y. dylid ystyried cael darpariaeth addas, e.e. bagiau & biniau clinigol.
- Dylid glanhau'r ardal gyn gynted â phosib gyda sylwedd sy'n cynnwys diheintydd.
- Rhaid bod yn ymwybodol o'r risg o drosglwyddiad firysau a gludir yn y gwaed (BBV - blood borne viruses.) Risg isel iawn sydd mewn dal BBV drwy iwrin & charthion, os nad oes gwaed yn bresennol. Dylid cyfeirio at bolisi'r Cyngor – 'Firysau a Gludir yn y Gwaed' am ragor o wybodaeth.
- Os ydych yn amau bod plentyn gydag afiechyd heintus, fel hepatitis, byddai rhaid gofyn cyngor meddygol.

Diweddglo

Ceir llawer o awgrymiadau uchod - ac efallai nad yw rhai ohonynt yn ffitio'n gyfforddus yn strwythur y diwrnod ysgol - ond mae llawer ohonynt eisoes wedi cynorthwyo llawer o ysgolion a theuluoedd i ddelio â'r sefyllfa.
Y gobaith yw y bydd yr uchod yn ychwanegu at y **nifer fawr o bethau mae ysgolion yn eu gwneud eisoes –** mae gan ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar rôl bwysig o ran ceisio atal problemau o'r fath rhag digwydd neu waethygu.

	Polisi Baeddu yn yr Ysgol Ysgol Bro Idris
Mabwysiadwyd ddiwethaf: Corff Llywodraethol Ysgol Bro Idris, 12fed o Orffennaf 2018	
Dyddiad mabwysiadu nesaf: Tymor yr Haf 2021	
Llofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethol: H. W Jones	
Dyddiad: 12.07.18	
Llofnod y Pennaeth Strategol: J. Owen	
Dyddiad: 12.07.18	